**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

19 Gorffennaf 2021

Annwyl Ms Jewell

**Ystyried y Gymraeg yng ngwaith y Pwyllgor**

Rwyf yn ysgrifennu atoch ar ddechrau cyfnod y chweched Senedd i'ch annog i sicrhau y bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg ym mhob agwedd o'i waith nid dim ond pan fydd yn ystyried materion penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Yn Strategaeth Cymraeg 2050 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r ganran sy'n siarad y Gymraeg yn ddyddiol i 20%. Mae'r strategaeth yn cynnwys cerrig milltir i fesur llwyddiant ei chyflawniad, gyda'r garreg filltir gyntaf yn 2021 a'r nesaf yn 2026. Fel y nododd y Comisiynydd yn ei lythyr at y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 10 Chwefror 2021 credwn y bydd rhaid bwrw ati o ddifri i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif am y graddau y mae'r Strategaeth yn cael ei chyflawni a'r cerrig milltir yn cael eu cyrraedd. Cyfeiriodd hefyd at bwysigrwydd prif ffrydio'r Gymraeg i ddeddfwriaeth a pholisi ehangach. Mae'n bryder gennym nad oes digon o graffu ar effaith deddfwriaeth a pholisi sy'n effeithio ar y Gymraeg yn gyffredinol. Yn wir, nododd Eluned Morgan, y Gweinidog blaenorol dros Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, mewn sesiwn graffu:

… I would suggest that actually, rather than just holding me to account when it comes to the budget, […] that actually you ask the other Ministers, who've got huge amounts of money, what they're doing within their budgets in relation to the Welsh language."
(Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, Cymraeg a Chyfathrebu, 25 Chwefror 2021)

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Pwysleisiaf na ddylid ystyried y Gymraeg yn fater diwylliannol yn unig gan ei bod yn iaith fyw ym mhob un o gymunedau Cymru ac yn brif iaith yn nifer ohonynt. Mae'r cymunedau hynny yn wynebu nifer o heriau cymdeithasol ac economaidd sydd yn eu tro yn herio hyfywedd y Gymraeg yn y cymunedau hynny.

Cyhoeddodd y Comisiynydd ddogfen maniffesto ar gyfer etholiad 2021[1] yn datgan bod angen ystyried amrediad eang o ffactorau sy'n effeithio ar y Gymraeg gan amlinellu nifer o ymyraethau polisi y mae angen eu cyflwyno mewn sawl maes. Yr her i'r Llywodraeth newydd fydd gweithredu'n radical er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd targedau 2050 a chredaf fod gan y pwyllgor rôl hollbwysig yn yr ymdrech i gyflawni hyn. Un o'r meysydd lle mae gwir angen gweithredu gan y Llywodraeth yw cyflwyno safonau'r Gymraeg. Rhain yw'r dyletswyddau gaiff eu gosod ar sefydliadau cyhoeddus i ddefnyddio ac ystyried y Gymraeg, gan sicrhau cysondeb ac ansawdd gwasanaethau yn yr iaith. Er mwyn galluogi'r Comisiynydd i osod safonau, mae'n rhaid i'r Llywodraeth baratoi safonau a chyflwyno rheoliadau. Daeth y set ddiweddaraf o reoliadau i rym ym mis Mehefin 2018. Rydym wedi cyflwyno rhaglen i'r Llywodraeth ei hystyried ar gyfer symud y gwaith hwn yn ei flaen cyn gynted â phosibl. Byddai'n addas i'r Pwyllgor hefyd sicrhau bod y rhaglen hon yn cael ei gweithredu cyn gynted ag y bo modd.

Byddwn yn cyhoeddi nifer o adroddiadau arwyddocaol dros yr haf, gan gynnwys ein Hadroddiad Blynyddol, ein Hadroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg a'n Hadroddiad Sicrwydd blynyddol ar berfformiad cyrff cyhoeddus yn erbyn safonau Cymraeg. Rwy'n siŵr y bydd cyfle i drafod yr adroddiadau hyn gyda'r Pwyllgor yn ystod tymor yr hydref.

Gobeithio y byddwch yn cadw'r sylwadau hyn mewn cof wrth i chi ystyried gwaith y pwyllgor i'r dyfodol. Dymunaf bob llwyddiant i chi yn y gwaith hwnnw a byddwn yn falch o gyfrannu ato.

Yr eiddoch yn gywir



Gwenith Price
**Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg**

[1] Maniffesto (positif.wales)